

Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

Y Cynghorydd E D Winstanley

Ward: Corneli

Plaid: Y Blaid Lafur

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Mai 2025**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

Y Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Corneli** ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi nifer o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon:

[Y Cynghorydd Elaine Winstanley](#)

Gweithgareddau Etholaethol

Rwy'n Llywodraethwr AALI ac yn Is-gadeirydd Afon y Felin, ac yn Llywodraethwr AALI Ysgol Y Ferch o'r Sgêr. Rwy'n mwynhau ymweld â'r ysgolion a gweld gweithgareddau'r plant ac eleni roeddwn i'n ymwneud â chyfweld ar gyfer pennaeth yr ysgolion a mynychu teithiau cerdded dysgu yn ogystal â chyfarfodydd arferol y pwyllgor.

Rwy'n cynnal cymorthfeydd rheolaidd ar y cyd â'r Cynghorydd Richard Granville ac rydym wedi cydweithio i godi materion gyda'r awdurdodau perthnasol. Rydym hefyd yn cynnal cymorthfeydd stryd ac yn mynychu digwyddiadau lleol.

Rwyf wedi mwynhau'n arbennig o fynychu digwyddiadau a drefnwyd gan Gôr Meibion Bro Mynyddcynffig ac eglwysi lleol.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi mwynhau bod yn rhan o ddigwyddiadau'r Cyngor Cymuned eleni, fel y Gwasanaethau Coffa a'r digwyddiad Nadolig yn ogystal â mynychu'r Sioe Arddwriaethol.

Fel dysgwr Cymraeg brwd, rwyf hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg yn frwdfrydig ac yn mynychu Gŵyl Ogi Ogi Ogwr ym Mharc Gwledig Bryngarw a siarad am fanteision addysg Gymraeg.

Rwy'n mynychu cyfarfodydd PACT yn rheolaidd ac yn siarad â'r heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar ran etholwyr.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Eleni rwyf wedi bod yn gadeirydd Archifau Morgannwg, ac wedi llofnodi'r cyfrifon blynyddol ac wedi craffu'r adroddiadau chwarterol.

Roeddwn hefyd ar y Pwyllgor Craffu Corfforaethol a Throsolwg ac yn craffu ar y cyllidebau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Ar hyn o bryd rydw i ar 6 Phwyllgor yn ogystal â mynychu'r Cyngor Llawn.

Y Cynghorydd E D Winstanley:

Dyddiad: 6 Gorffennaf 2025